Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Staff Cymorth yr Aelodau

30 Tachwedd 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Please may I request the following information.*

1. *A list of job titles that Members of the Senedd are able to use when employing support staff.*
2. *The number of Members' support staff currently employed with each job title.*
3. *The number of support staff currently employed by each Member of the Senedd.*
4. *If job titles are officially linked to pay bands please could you provide a document showing the job titles and linked pay bands.*
5. *The recruitment policy for Members' support staff issued by the Members' Business Support Team. I'm referencing the policy cited in section 3.1.2 of the Review of Staffing Support 2019, so if it's changed or provided by another team please could you provide the most recent recruitment policy for Members' Support Staff?*

Gweler ein hymateb i'ch cais isod.

1. *A list of job titles that Members of the Senedd are able to use when employing support staff.*

Ceir restr ar ein gwefan o deitlau swyddi posibl, ond gan fod Aelodau o'r Senedd yn gyflogwyr yn eu rhinwedd eu hunain, mae ganddynt ryddid i ddewis teitlau swyddi eu staff cymorth.

2. *The number of Members' support staff currently employed with each job title.*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, mae'n cynnwys data personol at ddibenion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data’r Deyrnas Unedig (GDPR y DU).

Yn ein barn ni, byddai datgelu union nifer y staff a gyflogir fesul teitl swydd yn mynd yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y’i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU. Gan hynny, mae peth o’r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“Deddf 2000”). Mae rhagor o fanylion am y rhesymeg y tu ôl i’r casgliad hwn i’w gweld yn yr **atodiad** i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, er mwyn darparu gwybodaeth i chi, a chydymffurfio â'n dyletswyddau o dan GDPR y DU ar yr un pryd, rydym wedi darparu’r manylion hyn ar ffurf ddienw yn y tabl isod:

| **Teitlau’r swyddi** | **Nifer y staff** |
|---|---:|
| Swyddog Gweinyddol | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Gweinyddol | Llai na 5 |
| Gweinyddwr | 6 |
| Swyddog Gweinyddol a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Swyddog Rheoli Achos, Ymchwil a Pholisi | Llai na 5 |
| Swyddog Gwaith Achos a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos | 21 |
| Gweithiwr Achos a Swyddog Ymgyrchoedd | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos a Swyddog Allgymorth Cymunedol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos a Chyfathrebu Digidol | Llai na 5 |
| Swyddog Cyswllt Cymunedol a Gwaith Achos | Llai na 5 |
| Rheolwr Gwaith Achos | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos/Cymorth Gweinyddol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos/Cynorthwyydd Etholaethol | Llai na 5 |
| Pennaeth Staff | Llai na 5 |
| Glanhawr | Llai na 5 |

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil | Llai na 5 |
| Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt yr Etholaeth | Llai na 5 |
| Swyddog Cyfathrebu a Seneddol | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil | Llai na 5 |
| Swyddog Cyfathrebu | 7 |
| Cynorthwyydd Cymunedol (Gweithiwr Achos) | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Cymunedol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Cymunedol a Chynorthwyydd Ymchwil | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Cymunedol/Gweinyddwr | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Cymunedol/Rheolwr Swyddfa | Llai na 5 |
| Swyddog Ymgysylltu Cymunedol | Llai na 5 |
| Swyddog Cyswllt Cymunedol a Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Cyswllt Cymunedol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Llai na 5 |
| Swyddog Cyswllt Cymunedol a Dyddiadur | Llai na 5 |
| Swyddog Cyswllt Cymunedol | 12 |
| Swyddog Personél ac Allgymorth Cymunedol | Llai na 5 |
| Swyddog Etholaeth a Chynnwys Digidol | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Etholaethol | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Etholaethol a Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Etholaethol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Etholaethol ac Ymchwilydd Seneddol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Etholaethol a Chydlynydd Dyddiadur | Llai na 5 |
| Swyddog Ymgysylltu Etholaethol a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Swyddog Cyswllt Etholaethol | Llai na 5 |
| Gweithiwr Swyddfa Etholaethol | Llai na 5 |

| | |
|---|---|
| Swyddog Etholaeth | Llai na 5 |
| Ysgrifennydd Etholaethol a Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Ysgrifennydd Dyddiadur | Llai na 5 |
| Ysgrifennydd y Dyddiadur a Gweinyddwr | Llai na 5 |
| Cyfarwyddwr Strategaeth | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Ymgysylltu a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Ysgrifennydd Gweithredol | Llai na 5 |
| Ymchwilydd i'r Grŵp | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Polisi’r Grŵp | Llai na 5 |
| Pennaeth Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Pennaeth y Swyddfa Etholaethol | Llai na 5 |
| Pennaeth Swyddfa | Llai na 5 |
| Pennaeth Swyddfa/Rheolwr Swyddfa | Llai na 5 |
| Pennaeth Materion Seneddol a Gweithrediadau | Llai na 5 |
| Pennaeth Polisi a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Gweinyddwr Cyfryngau | Llai na 5 |
| Swyddog y Cyfryngau, Cyfathrebu a Gwaith Achos | Llai na 5 |
| Swyddog y Cyfryngau | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa a’r Wasg | Llai na 5 |
| Cydlynydd Swyddfa/Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa | 21 |
| Rheolwr Swyddfa a Chynorthwyydd Personol | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa ac Ymchwilydd | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa ac Uwch-weithiwr Achos | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa (Etholaeth) | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa (Senedd) | Llai na 5 |

| | |
|---|---|
| Rheolwr Swyddfa/Cynorthwyydd Personol | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa/Uwch-weithiwr Achos | Llai na 5 |
| Rheolwr Swyddfa ac Ymchwilydd | Llai na 5 |
| Cydlynydd Swyddfa ac Uwch-weithiwr Achos | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Seneddol ac Etholaethol | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Seneddol | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Personol | Llai na 5 |
| Swyddog Polisi a Chydgysylltu | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg ac Ymchwil | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg ac Ymchwilydd | Llai na 5 |
| Swyddog y Wasg a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Gweithiwr Achos Rhanbarthol a Swyddog Cyswllt Cymunedol | Llai na 5 |
| Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu â'r Gymuned | Llai na 5 |
| Swyddog Ymchwil a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Ymchwil | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Ymchwil/Gweinyddol | Llai na 5 |
| Swyddog Ymchwil, Gwaith Achos a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Ymchwilydd | 14 |
| Ymchwilydd a Gweinyddwr | Llai na 5 |
| Ymchwilydd a Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Ymchwilydd a Swyddog Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Ymchwilydd a Gweithiwr Achos | Llai na 5 |
| Ymchwilydd a Chynorthwyydd Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Ymchwilydd a Swyddog Cyfathrebu | Llai na 5 |

| | |
|---|---|
| Swyddog Ymchwil | Llai na 5 |
| Uwch-weinyddwr | Llai na 5 |
| Uwch-gynghorydd | 24 |
| Uwch-weithiwr Achos | Llai na 5 |
| Uwch-weithiwr Achos a Swyddog Cyswllt Cymunedol | Llai na 5 |
| Uwch-weithiwr Achos a Swyddog Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Uwch-gynghorydd Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Cyfathrebu a Pholisi | Llai na 5 |
| Uwch-reolwr Cyfathrebu | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Cyfathrebu | 9 |
| Uwch-swyddog Cyfathrebu/Cynghorydd | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Ymgysylltu Cymunedol ac Ymchwil | Llai na 5 |
| Uwch-ddylunydd Graffeg a Chyfryngau Cymdeithasol | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Cyfryngau a Chymorth | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Polisi a Chynllunio Strategol | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog y Wasg ac Ymchwil | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Ymchwil a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Uwch-swyddog Ymchwil | Llai na 5 |
| Uwch-ymchwilydd | 5 |
| Uwch-ysgrifennydd | Llai na 5 |
| Swyddog Cynnwys Cymdeithasol a Chyfathrebu | Llai na 5 |
| Cynorthwyydd Arbennig i'r Arweinydd | Llai na 5 |
| Cydlynydd Dyfodol Cynaliadwy | Llai na 5 |

3. *The number of support staff currently employed by each Member of the Senedd.*

| Aelod o'r Senedd | Nifer y staff a gyflogwyd ym mis Hydref 2021 |
|---|---|
| Gareth Davies | 3 |
| Carolyn Thomas | 3 |
| Sam Rowlands | 3 |
| James Evans | 6 |
| Samuel Kurtz | 3 |
| Mabon ap Gwynfor | 5 |
| Jane Dodds | 6 |
| Cefin Campbell | 3 |
| Sarah Murphy | 3 |
| Sioned Williams | 4 |
| Altaf Hussain | 5 |
| Luke Fletcher | 3 |
| Tom Giffard | 5 |
| Elizabeth Williams | 3 |
| Joel James | 3 |
| Heledd Fychan | 6 |
| Rhys ab Owen | 3 |
| Peter Fox | 3 |
| Natasha Asghar | 2 |
| Peredur Owen Griffiths | 5 |
| Darren Millar | 5 |
| Lesley Griffiths | 4 |
| Mark Isherwood | 6 |
| Elin Jones | 4 |
| Paul Davies | 4 |

| | |
|---|---|
| Joyce Watson | 6 |
| Jane Hutt | 3 |
| Andrew RT Davies | 3 |
| John Griffiths | 4 |
| Lynne Neagle | 3 |
| Janet Finch-Saunders | 3 |
| Ken Skates | 4 |
| Rhun ap Iorwerth | 4 |
| Llyr Gruffydd | 3 |
| Russell George | 4 |
| David Rees | 3 |
| Mike Hedges | 3 |
| Julie James | 3 |
| Jenny Rathbone | 4 |
| Julie Morgan | 4 |
| Vaughan Gething | 3 |
| Mark Drakeford | 4 |
| Mick Antoniw | 3 |
| Alun Davies | 3 |
| Laura Jones | 5 |
| Siân Gwenllian | 6 |
| Hannah Blythyn | 2 |
| Adam Price | 4 |
| Lee Waters | 3 |
| Eluned Morgan | 4 |
| Rebecca Evans | 3 |

| | |
|---|---|
| Jeremy Miles | 4 |
| Huw Irranca-Davies | 6 |
| Vikki Howells | 4 |
| Hefin David | 3 |
| Rhianon Passmore | 3 |
| Dawn Bowden | 5 |
| Jayne Bryant | 3 |
| Jack Sargeant | 4 |
| Delyth Jewell | 4 |

4. *If job titles are officially linked to pay bands please could you provide a document showing the job titles and linked pay bands.*

Nid oes cysylltiad rhwng teitlau swyddi a bandiau cyflog. Cyhoeddir bandiau cyflog yn y **Penderfyniad** o dan baragraff 7.1.5.

5. *The recruitment policy for Members' support staff issued by the Members' Business Support Team. I'm referencing the policy cited in section 3.1.2 of the Review of Staffing Support 2019, so if it's changed or provided by another team please could you provide the most recent recruitment policy for Members' Support Staff?*

Mae'r polisi recriwtio diweddaraf ar gyfer staff cymorth Aelodau ynghlwm. (E-bostiwch **ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** i gael copi ohono)

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â mi. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu anfonwch lythyr i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i amlinellu yn Erthygl 4, GDPR y DU, sef:

"any information relating to an identified or identifiable natural person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, psychological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n gymwys ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y'i nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR y DU, yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth asesu a fyddai datgelu yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau hynny, disgwyliadau rhesymol y bobl dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau nhw ac unrhyw ddiddordeb dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Mae Aelodau o'r Senedd yn cyflogi staff cymorth yn uniongyrchol ac mae'r staff hyn yn atebol i'r Aelodau hynny. Ni fyddai gan yr unigolion ddisgwyliad rhesymol y byddai data personol yn ymwneud â'u cyflogaeth yn cael eu datgelu gan Gomisiwn y Senedd.

Trwy ryddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, gall fod modd adnabod rhai o'r staff cymorth sydd â theitl swydd anghyffredin. Er eu bod yn gweithio i gynrychiolwyr etholedig, nid oes gan staff cymorth rôl gyhoeddus ac nid ydynt yn disgwyl i wybodaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth gael ei chyhoeddi.

Er gwaethaf ein barn o ran tegwch, aethom ati i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r rhesymau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

"Processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the controller or by the third party, except where such interests are overridden by the interests or

fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.”

Mae’r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Senedd o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data’r DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at y wybodaeth hon; natur rolau'r unigolion a'u hawl hwy i breifatrwydd; a budd y cyhoedd yn sgil datgelu'r wybodaeth hon.

Mae tryloywder yn gyffredinol er budd y cyhoedd, ac mae gwybod am baramedrau a lefel y cymorth a gaiff Aelodau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys darparu cymorth staffio, hefyd o fudd penodol i’r cyhoedd. Mae budd i’r cyhoedd hefyd o ddeall i ba raddau y mae Aelodau unigol yn defnyddio’r cymorth hwnnw.

Fodd bynnag, nid oes gan yr aelodau o staff dan sylw rôl gyhoeddus (yn wahanol i gynrychiolydd etholedig) ac felly nid oes disgwyliad rhesymol y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhyddhau. Yn ein barn ni, mae budd y cyhoedd yn cael ei fodloni yn yr achos hwn, a hynny drwy ddatgelu'r wybodaeth ar ffurf ddienw, a thrwy ymateb yn llawn i agweddau eraill ar eich cais.

Er mis Ebrill 2019, mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi cyhoeddi gwariant staffio blynyddol pob Aelod o’r Senedd, ac mae hyn o ryw gymorth o ran craffu cyhoeddus. Cyhoeddir manylion y cymorth staffio gyffredinol a ddarperir i'r Aelodau yn y **Penderfyniad**.